

# Gair Duw

## Darlleniad: Marc 1: 14-15

Cwestiwn y byddaf yn ei glywed yn aml, yn enwedig gan ieuenctid, yw ‘Pam mae’n rhaid i ni ddarllen y Beibl?’ Fe aeth un gam ymhellach, ‘Hen lyfr hen ffasiwn ydi o, yn sôn am bethau ddoe!’ Er mwyn ateb y cwestiwn, awn yn ôl i’r flwyddyn 1549, at awdur y Llyfr Gweddi Gyffredin a’r colect neu’r weddi ar gyfer yr ail Sul yn nhymor yr Adfent. ‘Y Gwynfydedig Arglwydd, a barodd fod yr holl Ysgrythur Lân wedi ei hysgrifennu i’n haddysgu ni: Caniatâ fod i ni yn y fath fodd ei gwranddo, ei darllen, ei chwilio, ei dysgu, ei mwynhau, fel, trwy amynedd a diddanwch dy Air sanctaidd, y cofleidiwn ac y daliwn yn wastad obaith Gwynfydedig y bywyd tragwyddol. (Llyfr Gwasanaethau’r Bore a’r Hwyr yr Eglwys yng Nghymru [1969]). Mewn geiriau syml, rydyn ni’n darllen ac astudio’r Beibl i chwilio am obaith.

Mae’r thema ‘gobaith’ yn rhedeg trwy dudalennau’r Hen Destament. Mae’n cychwyn gyda galwad Abraham i adael ei gynefin, ac yna Moses yn arwain y bobl o gaethiwed yr Aifftr trwy’r anialwch i Wlad yr Addewid. Mae’r Salmudd droeon yn cyfeirio at yr ecsodus er mwyn profi bod Duw wedi gweithredu yn y gorffennol ac yn dal i gofio am ei bobl yn y presennol a’r dyfodol. Roedd y proffwydi’n barod i gyhuddo’r genedl o’u pechodau, ond trwy’r cyfan roedd gobaith maddeuant Duw yn realiti os oedd y bobl yn barod i edifarhau. Er bod Jeremeia wedi proffwydo dyddiau duon i’r genedl, ni chollodd y gobaith y byddai perthynas newydd, fewnol rhwng Duw a dyn. Ym mhroffwydoliaeth Eiseia a chaneuon y Gwas y gwelwn y gobaith hwn ar ei orau, gan fod sylfaen y gobaith yn natur Duw ac nid yn ymdrechion dynion.

Roedd yn anodd i bobl yr Hen Destament sylweddoli y byddai eu gobaith yn cael ei wireddu ym mherson Iesu. Chwilio am ryddhad gwleidyddol, diogelwch economaidd a dialedd ar eu gelynyion oeddent hwy. Ond y gobaith yr oedd Iesu’n ei gynnig oedd – yng ngeiriau’r colect – ‘[g]obaith

Gwynfydedig y bywyd tragwyddol'. Roedd hwn yn ddimensiwn newydd ac yn rhyddid perffaith oddi wrth hualau ofn a phechod. Golygai hyn eu bod yn cael eu codi uwchlaw eu hamgylchiadau. Dyma'r gobaith a gawn yn yr efengylau ym mywyd, gweinidogaeth, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist.

Myfyriwn ar yr agwedd hon o'r Beibl. Wrth ddarllen y llythyrau yn ail ran y Testament Newydd, ceisiwn roi ein hunain yn safle'r bobl a oedd yn gwrando arnynt yn cael eu darllen ac oedd yn awyddus i ddilyn Iesu Grist. Yn sydyn iawn, fe welwn eu bod yn llythyrau personol i'n heglwysi ni, ac i'n sefyllfa ni. Gwelwn mai'r un problemau a wynebwn ni â hwythau. Oherwydd lleiafrif ydyn ninnau heddiw hefyd, yn wynebu pwysau'r mwyafrif sy'n gadael Duw ar y cyrion. Mae ein heglwysi ninnau, fel yr eglwysi yn Rhufain a Corinth, yn wynebu tensiynau a gwrthdrawiadau. Agorwn y Beibl gyda meddwl agored yn y gobaith y down i'n hadnabod ein hunain yn well, a dod hefyd i adnabod Duw yn Iesu Grist. Oherwydd y mae'r Beibl yn air oddi wrth y Tad sy'n malio am ein bywyd bob dydd. Pam darllen y Beibl? Llyfr gobaith ydi o, a'i thema drwyddo draw ydi bod Duw yn bod, yn gweithredu ac yn gofalu amdanom. Ond mae hefyd yn ateb y cwestiwn, 'Beth yw dyn?' Plentyn i Dduw. Dyna'r gobaith.

### **Myfyrdod pellach:**

Ydi'r Beibl yn cael lle allweddol ym mywyd eich eglwys?

Mae rhai'n dweud y dylid hepgor yr Hen Destament? Beth yw eich barn chi?